

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research


Rhif: 52/2012



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o effeithiau Datrys Tlodi Plant Cymru



Gwerthusiad o effeithiau Datrys Tlodi Plant Cymru

Arad Research

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Mike Harmer

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad

Llywodraeth Cymru

Swyddfa Merthyr Tudful

Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8134

E-bost: michael.harmer@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978-0-7504-8634-7

© Hawlfraint y Goron blwyddyn 2013

Cynnwys

1	Cyflwyniad i'r gwerthusiad	2
2	Effeithiolrwydd y gwahanol fathau o gefnogaeth	8
3	Effeithiolrwydd wrth ddarparu cefnogaeth	16
4	Anghenion y dyfodol	28
5	Gwerth am arian	30
6	Rôl ac effeithiolrwydd y grŵp llywio	35
7	Casgliadau	37

Atodiadau

Atodiad 1:	Ymgynghoriadau	40
Atodiad 2:	Dyfarnu grantiau	41
Atodiad 3:	Nodau Eang	42

Ffigurau

Ffigur 1:	Strategaethau tlodi plant a gyhoeddwyd gan awdurdodau a enwir yn y Mesur	3
Ffigur 2:	Nodau Datrys Tlodi Plant Cymru	5
Ffigur A1:	Datrys Tlodi Plant, dadansoddiad o'r costau	42
Ffigur A2:	13 Nod Eang Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010	46

1 Cyflwyniad i'r gwerthusiad

- 1.1 Comisiynwyd Arad Research i werthuso effeithiau Prosiect Datrys Tlodi Plant Cymru ers 2010. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad hwnnw.

Datrys Tlodi Plant: Y Cefndir

- 1.2 Gwasanaeth gan Achub y Plant yw Datrys Tlodi Plant Cymru, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi'r amrywiaeth eang o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i fynd i'r afael â thlodi plant.

Cyd-destun Polisi

- 1.3 Drwy gyfrwng Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'r Strategaeth Tlodi Plant gysylltiedig, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdodau Cymreig a enwir (wedi'u rhestru yn ffigur 1) i lunio strategaethau tlodi plant a dangos sut y maent yn bwriadu gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc sy'n dioddef tlodi neu amddifadedd. Mae'r Mesur yn disgrifio 13 nod eang sy'n deillio o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r Mesur yn nodi bod rhwymedigaeth ar yr awdurdodau cyhoeddus i gyfrannu tuag at un neu fwy o'r nodau eang hyn¹.
- 1.4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau² i awdurdodau Cymreig, sy'n cyfeirio at Datrys Tlodi Plant Cymru fel adnodd allweddol ar eu cyfer.

1 Mae'r 13 Nod Eang wedi'u nodi yn Atodiad 3.

2 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) Mynd i'r Afael â Thlodi Plant: Canllawiau a Rheoliadau i Awdurdodau Cymreig <http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/110513tacklingcy.pdf>

Ffigur 1: Strategaethau tlodi plant a gyhoeddwyd gan awdurdodau a enwir yn y Mesur

Awdurdod Cymreig a enwir yn y Mesur	Strategaeth Tlodi Plant a gyhoeddwyd yn 2012
<p>Byrddau Iechyd Lleol:</p> <p>Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg</p> <p>Aneurin Bevan Prifysgol Betsi Cadwaladr Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cwm Taf Hywel Dda</p> <p>Bwrdd Addysgu Iechyd Powys</p>	<p>Rhyddhawyd³; mae'r bwrdd Iechyd hefyd wedi cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ei Strategaeth.</p> <p>Rhyddhawyd Rhyddhawyd Cyhoeddwyd y Strategaeth Rhyddhawyd Rhyddhawyd, gan ei fod yn aelod o dri CYPP³</p> <p>Rhyddhawyd</p>
<p>Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru:</p> <p>Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru</p> <p>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru</p> <p>Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru</p>	<p>Cyhoeddwyd y Strategaeth</p> <p>Rhyddhawyd Cyhoeddwyd y Strategaeth</p>
<p>Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru:</p> <p>Bannau Brycheiniog</p> <p>Arfordir Penfro</p> <p>Eryri</p>	<p>Cyhoeddwyd y Strategaeth Cyhoeddwyd y Strategaeth Cyhoeddwyd y Strategaeth</p>
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Cyhoeddwyd y Strategaeth
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Cyhoeddwyd y Strategaeth
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cyhoeddwyd y Strategaeth
Amgueddfa Genedlaethol Cymru	Cyhoeddwyd y Strategaeth
Cyngor Celfyddydau Cymru	Cyhoeddwyd y Strategaeth
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Cyhoeddwyd y Strategaeth
Cyngor Chwaraeon Cymru	Cyhoeddwyd y Strategaeth
Awdurdod Lleol	Cyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Plant yn 2011
Aeth y 22 awdurdod lleol ati i baratoi strategaethau tlodi plant ac, ar y cyfan, cawsant eu hymgorffori i'w Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc 2011-2014.	Cyhoeddwyd y Strategaethau

³ Mae Adran 5 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn datgan os yw'r Awdurdod Cymreig wedi trefnu dan Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 (c. 31) gyda phob ardal Awdurdod Lleol y mae'n gyfrifol amdani [yn ymarferol, os yw'n aelod o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPP)], yna caiff ei ryddhau rhag y ddyletswydd i gyhoeddi ei strategaeth ei hun. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn dal i allu llunio ei Strategaeth ei hun os yw'n dewis gwneud hynny. Gweler hefyd 3.18.

Datrys Tlodi Plant Cymru 2007-2010

1.5 Yn wreiddiol, roedd y Prosiect yn bartneriaeth rhwng Achub y Plant, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ystod ei gam cyntaf, roedd yn cefnogi awdurdodau lleol i flaenoriaethu a phrif-ffrydio tlodi plant. Cafodd Achub y Plant ei ariannu'n wreiddiol am dair blynedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007 er mwyn sefydlu Datrys Tlodi Plant Cymru. Roedd y Prosiect yn gweithredu ar ddwy lefel:

- Ar lefel genedlaethol, aeth y Prosiect ati i ddatblygu pecyn cymorth Tlodi Plant, sydd ar gael i awdurdodau a'u partneriaid ar ffurf adnodd gwe deinamig, yn cynnwys amrywiaeth o offer, adnoddau a chyngor.
- Ar lefel leol, aeth y Prosiect ati i helpu dau awdurdod lleol peilot (Gwynedd a Rhondda Cynon Taf) i ddatblygu mesurau ymarferol i leihau tlodi plant yn yr awdurdod lleol, ac yna rhannu'r hyn a ddysgwyd fel enghraifft o feithrin gallu'n lleol i fynd i'r afael â thlodi plant.

Datrys Tlodi Plant Cymru 2010-2013

1.6 Gan ymateb i alwadau o hyd a lled y sector cyhoeddus yng Nghymru, estynnwyd cytundeb Datrys Tlodi Plant Cymru (y cyfeirir ato hefyd yn yr adroddiad hwn fel 'CPSW' neu 'y Prosiect') yn 2010, a hynny am dair blynedd ychwanegol. Gydag un aelod o staff llawn-amser yng Nghaerdydd, mae'r Prosiect yn cefnogi awdurdodau Cymreig i baratoi strategaethau tlodi plant er mwyn cyflawni eu dyletswyddau newydd dan Fesur 2010.

Nod, cwmpas ac amcanion y gwerthusiad

1.7 Dyma nodau'r gwerthusiad, a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru:

- Asesu i ba raddau y mae CPSW wedi cyrraedd pob un o nodau'r Prosiect (a restrir isod).

Ffigur 2: Nodau Datrys Tlodi Plant Cymru

- Ymestyn a datblygu ei waith cyfredol, drwy gyfrwng cydgysylltydd Prosiect dynodedig, er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun polisi sy'n newid yng Nghymru a'r DU, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, a'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar fynd i'r afael â thlodi plant a gwella'r canlyniadau ar gyfer teuluoedd incwm isel.
- Cynnal a gwella'r adnodd gwe presennol – er mwyn sicrhau ei fod yn dal ar gael, yn gyfredol ac yn berthnasol i anghenion yr awdurdodau Cymreig a nodir ym Mesur 2010.
- Cefnogi awdurdodau Cymreig wrth gyflawni eu dyletswyddau newydd dan Fesur 2010 – er enghraifft drwy barhau i rwydweithio gydag awdurdodau Cymreig ledled Cymru er mwyn datblygu cyrsiau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o sut i fynd i'r afael â thlodi plant.
- Parhau i weithio gydag awdurdodau Cymreig, er mwyn paratoi ar gyfer dyletswyddau newydd dan y Mesur arfaethedig, i godi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau i fynd i'r afael â thlodi plant. Y nod yw cyfuno hyn gyda gwaith i feithrin gallu a datblygu deunyddiau hyfforddi a chysiau ar gyfer awdurdodau Cymreig.
- Hyrwyddo Datrys Tlodi Plant Cymru i gynulleidfaoedd newydd, er mwyn helpu i rannu arferion gorau wrth fynd i'r afael â thlodi plant (ac i fireinio'r gefnogaeth a gynigir mewn meysydd gwasanaeth arbenigol, megis addysg, iechyd a Chymunedau'n Gyntaf).

Ffynhonnell: Dogfen Gwahoddiad i Dendro

- Asesu pa mor effeithiol fu CPSW wrth gefnogi awdurdodau lleol ac awdurdodau Cymreig eraill a enwir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, wrth iddynt ddatblygu eu strategaethau tlodi plant newydd.
- Archwilio pa mor effeithiol fu'r gwahanol fathau o gefnogaeth a ddarparwyd gan CPSW (e.e. yr offeryn ar-lein, cyfarfodydd un i un, sesiynau hyfforddi, gweithdai) ac i ba raddau y mae'r cymorth a'r cyngor hwn wedi atgyfnerthu strategaethau tlodi plant unigol.
- Archwilio'r gwahanol fathau o gefnogaeth a chyngor a ddarparwyd gan CPSW ac i ba raddau y mae hyn yn debygol o ddiwallu anghenion a gofynion awdurdodau lleol Cymru a chyrrff cyhoeddus yn y dyfodol, wrth iddynt gyflwyno eu strategaethau tlodi plant newydd.
- Archwilio i ba raddau y mae contract Llywodraeth Cymru yn cynnig gwerth am arian.
- Archwilio rôl y grŵp llywio sydd wedi goruchwylio Prosiect CPSW ers 2010.

- 1.8 Mae gweddill y penodau yn ymdrin â'r pwyntiau hyn yn eu tro. Mae astudiaethau achos byr hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn er mwyn dangos sut mae'r gefnogaeth wedi'i darparu i'r awdurdodau.

Trosolwg o'r fethodoleg

- 1.9 Mae'r adroddiad gwerthuso hwn, a gynhaliwyd wrth i gyfnod cytundeb y Prosiect ddod i ben, yn cynnig tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ar effeithiolrwydd y Prosiect.
- 1.10 Yn dilyn y canllawiau yn y gwahoddiad gwreiddiol i dendro a chyfarfod cychwynnol y Prosiect, seiliwyd methodoleg y gwerthusiad ar gyfuniad o ymchwil ddesg a gwaith maes a oedd yn cynnwys y tasgau allweddol canlynol:
- Adolygiad desg o'r llythyr dyfarnu grant, cofnodion y grŵp llywio, adroddiadau cynnydd chwarterol, gwerthusiadau o'r Prosiect rhwng 2007-10 a dogfennaeth arall i amlinellu cynnydd ac arferion gweithio.
 - Cyfweiliadau â chydgyssylltydd y Prosiect.
 - Cyfweiliadau â'r holl awdurdodau Cymreig a aeth ati i baratoi strategaethau, yn ogystal â nifer bach o awdurdodau lleol.
 - Nod y cwestiynau oedd casglu safbwyntiau ar y defnydd o wasanaethau'r Prosiect, a chanfyddiadau o werth ac effaith y gwasanaethau hyn.
 - Cyfweiliadau â sefydliadau partner (e.e. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Plant yng Nghymru – gweler y rhestr lawn yn yr atodiad).

Cydnabyddiaeth

- 1.11 Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu o'u hamser a'u hymdrech i'r gwerthusiad hwn o Datrys Tlodi Plant Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr holl gyfraniadau – boed yn gyfraniadau ysgrifenedig neu'n gyfraniadau drwy gyfrwng cyfweiliadau â'r tîm gwerthuso. O ganlyniad i'r cyfraniadau hyn, cafodd y tîm gorff sylweddol o dystiolaeth a fu'n sail i'r adroddiad hwn a'i ganfyddiadau.

2 Effeithiolrwydd y gwahanol fathau o gefnogaeth

- 2.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y gwahanol fathau o gefnogaeth a ddarperir gan CPSW ac i ba raddau y mae'r cymorth a'r cyngor hwn wedi cryfhau'r strategaethau tlodi plant unigol.
- 2.2 Drwy'r gwaith maes, canfuwyd sawl ffrwd o gefnogaeth, ac mae gweddill yr adran hon yn eu disgrifio, ac yn mynd rhagddi i adolygu'r ffactorau llwyddiant allweddol a'r heriau sy'n parhau.

Cyswllt unigol

- 2.3 Mae'r gefnogaeth a gynigir gan CPSW wedi'i disgrifio yn y canllawiau ar gyfer awdurdodau Cymreig⁴:
- Gwaith wyneb yn wyneb gyda chyrff cyhoeddus ar ffurf codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ar dlodi plant a chynllunio camau gweithredu, wedi'i ddarparu ar y cyd â CLILC.
 - Gwefan Datrys Tlodi Plant, www.childpovertysolutions.org.uk/ sydd wedi'i dylunio i ategu'r gwaith wyneb yn wyneb a'i gwneud hi mor hawdd ag sy'n bosibl i gyrff cyhoeddus lywio'r amrywiaeth eang o ddeunyddiau sy'n ymwneud â thlodi.
- 2.4 Nid yw'r canllawiau yn cynnig llawer o fanylion ymarferol am sut i baratoi strategaeth tlodi plant a nododd yr ymgylgoreion ei bod yn 'anodd gwybod lle i ddechrau'. O ganlyniad, roedd yr awdurdodau yn croesawu'r gefnogaeth gan Datrys Tlodi Plant Cymru, gan fod ganddynt nifer o gwestiynau nad oedd y canllawiau yn eu hateb. Roedd llawer o'r cwestiynau hyn yn ymwneud â dod o hyd i dystiolaeth ('pa mor gadarn sy'n rhaid iddi fod?'; 'sut allwn ni ddadansoddi'r data yn ôl gwahanol lefelau daearyddol?'; 'a yw'r data hwn ar gael gan Lywodraeth Cymru?' ac ati) ond roedd ganddynt hefyd gwestiynau mwy cysyniadol o ran cwmpas strategaethau awdurdodau unigol ('a ddylem ni gynnwys gweithgareddau partneriaid sy'n darparu ar ein rhan ni?'; 'beth am

⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mai 2011) *Mynd i'r Afael â Thlodi Plant: Canllawiau a Rheoliadau ar gyfer Awdurdodau Cymreig*

weithgareddau a gynhelir ar y cyd?', 'a ddylem ni ymgorffori hyn i strategaethau sy'n bodoli eisoes?' ac ati).

- 2.5 Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau, ond nid y cyfan ohonynt, yn ymwybodol o'r Mesur cyn i Lywodraeth Cymru neu'r Prosiect gysylltu â hwy, ond roedd amrywiaeth fawr o ran yr wybodaeth gefndirol a oedd ganddynt am y pwnc wrth iddynt gychwyn ar eu strategaethau. Roedd gan rai awdurdodau gynlluniau gweithredu ar gynhwysiant cymdeithasol neu gydraddoldeb, a dogfennau strategol eraill a oedd yn bodoli cyn Mesur 2010. Mewn llawer o achosion, roedd y cyfarfodydd cyntaf wedi tyngu ynghyd yr awdurdod, y Prosiect, a swyddog o Lywodraeth Cymru. Fe weithiodd hyn yn dda gan eu bod yn rhoi cyfle i rannu syniadau cynnar a chytuno ar rai o'r blaenoriaethau gyda'i gilydd.
- 2.6 Roedd yr awdurdodau yn gwerthfawrogi'r cyswllt gydag un swyddog enwebedig, gan eu bod yn derbyn 'sawl hysbysiad drwy'r e-bost am wahanol bynciau, felly mae'n dda i gael unigolyn penodol a chyswllt wyneb yn wyneb'. Roedd rhai o'r cyfweleion yn gwerthfawrogi rôl y cydgysylltydd o ran herio a hyrwyddo ffyrdd newydd o feddwl am dlodi plant. Ar lefel fwy ymarferol, nododd sawl un ei bod yn ddefnyddiol cael person allanol i'w hatgoffa i weithio ar y strategaeth, tra'r oeddent yn wynebu pwysau gwaith o gyfeiriadau eraill hefyd:
- 'Roedd [y cydgysylltydd] yn ein herio ni; roedd yn ddefnyddiol iawn gan fod hynny wedi dylanwadu ar ein ffordd o feddwl'.
- 'Rôl [CPSW] oedd gofyn 'a ydych chi'n gwneud digon?'.

Ffynhonnell y dystiolaeth

- 2.7 Y neges a gafwyd gan yr awdurdodau yw bod y mynediad at amrywiaeth eang o lenyddiaeth gefndirol a thystiolaeth ategol wedi arbed amser, eu helpu i 'safoni' eu dull o weithio ac wedi creu 'maes chwarae mwy gwastad' yn nhermau mynediad at ffynonellau.

Gwefan ac offer ar-lein

- 2.8 Yr adnoddau ar-lein drwy www.childpovertysolutions.org.uk yw wyneb cyhoeddus y gefnogaeth ac mae tystiolaeth ei fod wedi cael croeso da ac yn cael ei ystyried yn 'adnodd defnyddiol a gwerthfawr'. Roedd y cyfweleion yn hoffi'r dadansoddiad yn ôl sector, yn ei chael hi'n hawdd llywio'r wefan ac yn ymddiried yn y cynnwys. Caiff ei ystyried yn 'gronfa wybodaeth' ac yn storfa werthfawr o'r dogfennau mwyaf perthnasol am dlodi plant: 'os oes yna ddogfen newydd, rwy'n gwybod y gallaf ddod o hyd iddi yno'. Roedd yr holl gyfweleion yn hoffi'r syniad o 'siop un stop' benodol i'r pwnc.
- 2.9 Mae gan y wefan ardal aelodau ac wedi meithrin aelodaeth o 68 o weithwyr sector cyhoeddus cofrestredig ers mis Tachwedd 2011.
- 2.10 Mae yna dystiolaeth, fodd bynnag, nad yw'r holl awdurdodau yn defnyddio'r wefan ac mae eraill yn cyfaddef nad oeddent wedi 'dychwelyd i'r safle' ar ôl y cyfnod cychwynnol. Dyma rai o'r rhesymau posibl am hyn a nodwyd wrth y tîm gwerthuso:
- Nid yw'r safle bob amser yn cael ei gadw'n ddiweddar ac weithiau mae dolenni ar goll. Fodd bynnag, roedd y cyfweleion yn cydnabod bod cynnal gwefan mor fawr yn dasg lafurus;
 - Byddai cyfweleion wedi croesawu dolenni mwy amlwg i dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ac i ffynonellau ystadegol Llywodraeth Cymru;
 - Fe gollwyd cyfle i sicrhau mwy o berchenogaeth a chyfraniadau uniongyrchol gan yr awdurdodau; er enghraifft wrth annog awdurdodau i gymryd cyfrifoldeb am ysgrifennu rhai adrannau o'r wefan.
 - Nid yw'r strategaethau a gyhoeddwyd eto wedi ymddangos ar y wefan, nac wedi'u cysylltu iddi, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.
 - Er bod llawer o'r deunydd a oedd yn berthnasol i'r awdurdodau wedi bod ar gael ers y dechrau ar wefan y Prosiect, ni chafodd y gwefan ar gyfer y cam hwn ei lansio tan fis Tachwedd 2011. Cafwyd y nifer mwyaf o ymweliadau â'r wefan fel ag yr oedd hi yn ystod mis Mai 2011, tua'r adeg y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau. Unwaith eto,

mae'n bosibl y collwyd cyfle i gyhoeddi deunydd newydd ar wefan y Prosiect ar yr un pryd â chyhoeddi'r canllawiau.

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Wedi galw ar sawl elfen o gefnogaeth CPSW

Achubodd yr Amgueddfa ar y cyfle i fynychu digwyddiadau, cael cyswllt uniongyrchol a defnyddio'r wefan.

Digwyddiadau:

- Yr Amgueddfa a gynhaliodd y digwyddiad cyntaf, a daeth y tîm Strategaeth ar draws nifer o gysyniadau ac eitemau polisi am y tro cyntaf, gan gynnwys Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA⁵), Mynegai Amddifadedd Lluosog a Mesur Hawliau'r Plentyn.

Cyswllt uniongyrchol:

- 'Cyngor deallus' dros y ffôn ar baratoi'r adborth ar fersiynau drafft o'r strategaeth. Rhan o broses iterus gydag adborth gan staff yr Amgueddfa a CPSW yn symud y drafft yn ei flaen.
- Rhwydweithio – Cyflwynodd CPSW yr Amgueddfa i bartneriaid a sefydliadau eraill (a arweiniodd wedyn at gynnal cyfarfodydd ymysg eu hunain yn annibynnol o CPSW) ac at ddigwyddiadau eraill (e.e. fe aethant i gynhadledd Eurochild Caerdydd).
- Cyfarfodydd ar y cyd â CPSW a Llywodraeth Cymru.
- Roedd y cyswllt â CPSW yn gatalydd ar gyfer ffordd wahanol o weithio.

Gwefan

- Llwyddodd y tîm i gael gafael ar wybodaeth am amrywiaeth o bynciau oddi ar y wefan.

Digwyddiadau

2.11 Roedd yr holl gyrrff cyhoeddus yn gwerthfawrogi'r cyfle i fynychu digwyddiadau ar dlodi plant. Roeddent yn canmol cynnwys y digwyddiadau eu hunain, a gwelwyd llawer o sylwadau cadarnhaol ar y ffurflenni adborth ac yn ystod cyflweliadau'r gwerthusiad. Yn ogystal, roedd tystiolaeth y bu'r digwyddiadau yn arbennig o ddefnyddiol fel cyfle

⁵ Mae RBA yn ffordd o ymgorffori proses o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ganlyniadau i'r gwaith cynllunio, y ddarpariaeth ac atebolrwydd – mae rhagor o fanylion ar gael drwy: <http://www.childpovertysolutions.org.uk/english/rba>

i rwydweithio ac wedi hybu cydweithredu a chysylltiadau pellach. Roedd y cyfweleion yn unfryd yn eu barn ei bod yn werthfawr cael rhwydweithio ag eraill a oedd 'yn yr un cwch'.

2.12 Roedd lleiafrif o'r cyfweleion yn fwy beirniadol o'r digwyddiadau hyn, gan nodi na roddwyd ddigon o rybudd ac nad oedd y digwyddiadau yn mynd i'r afael yn llawn ag anghenion y gwahanol awdurdodau. Roedd un eitem yn arbennig wedi'i feirniadu'n hallt gan nifer o'r awdurdodau. Cafodd y digwyddiad olaf ar gyfer yr holl awdurdodau ei gynnal cyn y cyfnod ymgynghori a chyhoeddi, a threfnodd y Prosiect i grŵp o bobl ifanc adolygu a rhoi sylwadau ar y strategaethau drafft. Mae'n debyg nad oedd y rheiny a fynychodd wedi cael gwybod y byddai hyn yn digwydd ymlaen llaw, ac mewn un achos, cyflwynwyd dogfen 'fewnol, sych' gerbron y bobl ifanc i'w thrafod yn hytrach na fersiwn 'gyfeillgar' i bobl ifanc. Teimlai rhai o'r cyfweleion yn rhwystredig ar ôl y sesiwn hon, gan gwestiynu pa mor ddefnyddiol oedd hi: 'ni chyfranodd ymateb uniongyrchol y plant i'n cyfres o gamau gweithredu unrhyw beth i'n proses'. Cafodd ei ddisgrifio gan un o'r cyfweleion fel 'dim mwy na gêm neu sioe' ac nid oedd y gweithgaredd wedi'i dargedu'n gywir. Cafodd ei gynnal yn rhy hwyr yn y dydd i fod o fudd wrth ddrafftio'r strategaethau.

2.13 Dylid nodi bod rhai o'r cyfweleion wedi croesawu'r cyfraniad hwn ac wedi mwynhau'r sesiwn, gan egluro na fyddai wedi bod ganddynt 'yr amser na'r adnoddau i gynnig unrhyw beth mor fanwl' eu hunain. Dim ond dau o'r awdurdodau yr ymgynghorwyd â hwy a oedd wedi mynd ati i gasglu adborth gan bobl ifanc yn annibynnol o'r digwyddiad hwn, tra bod eraill o'r farn nad oedd hynny'n briodol ar gyfer dogfen strategol a oedd wedi'i thargedu'n bennaf at gynulleidfa fewnol. Nododd eraill nad oedd amser ganddynt i wneud hynny, 'ni fu modd i ni ei wneud yn iawn ar y pryd ond byddwn yn trefnu grŵp o'r fath ar gyfer y dyfodol'.

Darparu hyfforddiant

2.14 Darparodd y Prosiect hyfforddiant ar dlodi plant i amrywiaeth o gyrff cyhoeddus ac eraill yn ystod y cyfnod hwn. Yn ystod 2010/2011,

cynhaliwyd saith gweithdy hyfforddi ffurfiol o'r fath ar gyfer 279 o gyfranogwyr a deg gweithdy ar gyfer bron pum cant o gyfranogwyr yn 2011/12.

Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Casnewydd – a dderbyniodd cefnogaeth yn gynnar yn 2010

Cysylltodd swyddog yr awdurdod lleol â Datrys Tlodi Plant i ofyn am gefnogaeth wrth fynd i'r afael â thlodi plant, ac am gyngor ar sut i dynnu gwybodaeth at ei gilydd o ystod eang o bartneriaid ar gyfer y cynllun newydd.

Gyda chymorth CPSW, bu modd trefnu digwyddiad hanner diwrnod ar dlodi plant i ryw 60 o staff ac aelodau etholedig ym mis Chwefror 2010. Heb y gefnogaeth, byddai'r swyddog wedi gorfod trefnu'r digwyddiad ei hun, byddai wedi cymryd llawer hirach a byddai wedi gorfod sicrhau cymorth pobl eraill.

Yn ystod y digwyddiad, bu modd i gydgyssylltydd CPSW 'roi ein problemau yng nghyd-destun Cymru a'n cysuro bod gan awdurdodau lleol eraill broblemau hefyd'. Roedd yn 'ddiwrnod rhagorol' ac roedd yr hyn a gafwyd ohono yn 'hwb da' i gynllun 2011-2014.

Un o ganlyniadau'r diwrnod oedd codi ymwybyddiaeth, gan nad oedd y cynghorwyr cyn hynny yn deall beth a olygwyd wrth 'dlodi plant', na sut yr oedd yn berthnasol i'w portffolios. Roedd presenoldeb cydgysylltydd CPSW fel 'hwylusydd niwtral' yn ffactor dylanwadol wrth godi ymwybyddiaeth am y pwnc. Arferai tlodi plant gael ei weld fel 'silo' ac fel cyfrifoldeb i bobl eraill, ond ar ôl y sesiwn, roedd y cyfranogwyr yn deall ei fod yn bwnc trawstoriadol sy'n perthyn i bawb. Yn sgil hyn, rhoddwyd y pwnc ar agendâu amrywiaeth ehangach o adrannau awdurdodau lleol. Roedd y cydgysylltydd yn gallu egluro a phwysleisio pwysigrwydd y Mesur a pha gamau i'w cymryd yn lleol.

Cefnogaeth wrth gyflwyno'r achos i gydweithwyr

2.15 Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau wedi nodi heriau wrth ddadlau bod tlodi plant yn berthnasol i rolau eu cydweithwyr. Roedd honiadau uwchswyddogion 'nad yw tlodi plant yn ddim byd i'w wneud â ni' yn gyffredin, ac roedd y negeseuon a gyflëwyd gan y Prosiect yn ddefnyddiol wrth herio'r safbwyntiau hyn. Yn sgil hyn, mae sawl awdurdod wedi mynd yn eu blaen i gynnwys ymrwymadau i hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth staff yn eu strategaethau.

Cefnogaeth wrth ddrafftio strategaethau tlodi plant.

- 2.16 Disgrifiwyd y broses o ddrafftio'r strategaethau tlodi plant unigol fel proses iteraidd, ddwyffordd, yn cynnwys trafodaethau rhwng staff yr awdurdod a chydgysylltydd CPSW. Roedd awdurdodau yn croesawu'r sylwadau ar gopïau drafft eu strategaethau ac 'yn y dyddiau cynnar, roedd yn arbennig o dda i gael rhoi prawf ar bethau', ac i gael adborth cychwynnol ar y cynnwys. Roedd yr ohebiaeth ar y strategaethau drafft yn digwydd drwy gyfrwng yr e-bost a dros y ffôn yn bennaf, ac mewn rhai achosion, rhoddwyd sylwadau ar sawl drafft. Ymddengys felly bod parodrwydd cydgysylltydd CPSW i gynnig adborth ar fersiynau drafft cynnar o'r strategaethau a gynhyrchwyd gan yr awdurdodau yn rhoi'r hyder a'r wybodaeth ychwanegol yr oedd ei hangen arnynt er mwyn creu'r drafftiau terfynol.
- 2.17 Nododd un awdurdod bod angen cynnwys adran yn y strategaeth er mwyn rhoi cyd-destun i sicrhau cymeradwyaeth amryw bwyllgorau. Ystyriwyd bod cyfraniad CPSW i'r broses o ddrafftio'r adran hon yn werthfawr tu hwnt, a bu modd i'r cydgysylltydd ddarparu'r rhan fwyaf o'r deunydd yr oedd ei angen ar gyfer yr adran hon.
- 2.18 Wrth ddrafftio a pharatoi'r strategaethau, cyfaddefodd y cyfweleion bod y strategaethau terfynol yn dal i ddatblygu, a:
- 'Mae a wnelo'r strategaeth hon â "gosod y cynsail" a sicrhau bod ein partneriaid yn ymrwymo. Byddwn yn fwy uchelgeisiol y tro nesaf.'
- 2.19 Nodwyd wrth y tîm gwerthuso y bu'r Prosiect yn ddefnyddiol wrth gyfleu'r neges nad oedd yn rhaid i'r strategaethau gael pob dim yn iawn na chynnwys popeth y tro cyntaf.

Help wrth ddeall tlodi plant

- 2.20 Un o gyflawniadau gwirioneddol CPSW yw bod y cyfweleion wedi nodi bod y Prosiect wedi eu hannog i feddwl am, ac ymgysylltu ag ymchwil bellach ar dlodi plant mewn llawer o achosion. Mae'n amlwg bod y gefnogaeth wedi galluogi awdurdodau i gael dealltwriaeth ehangach a

chywirach o dlodi plant, a deall ei fod yn cynnwys mwy na thlodi o ran incwm yn unig. Daethpwyd i'r ddealltwriaeth hon yn bennaf drwy gyfrwng trafodaethau un i un gyda chydgyssylltydd CPSW, drwy gyfrwng digwyddiadau a thrwy gyfrwng hyfforddiant. Fel y trafodir uchod, mae'r Prosiect wedi helpu cyfran fawr o gyfweleion i ddarbwylo cydweithwyr bod ganddynt rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Law yn llaw â'r ddealltwriaeth ddyfnach hon, daw ymwybyddiaeth o fylchau a meysydd nad yw'r awdurdodau unigol eto wedi mynd i'r afael â hwy – 'dydyn ni ddim wedi cyrraedd pen y daith eto ond yn sicr rydym ni ar ein ffordd'. Roedd tystiolaeth hefyd fod cyswllt â Datrys Tlodi Plant wedi galluogi awdurdodau i ddysgu mwy am faterion ehangach sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a thlodi:

'Dyma oedd y tro cyntaf i mi glywed am Fesur Hawliau'r Plentyn, RBA, Mynegai Amddifadedd Lluosog – roedd hyn i gyd yn newydd i ni.'

- 2.21 Ymddengys y bu gwybodaeth y cydgysylltydd ei hun a'i fynediad at wybodaeth am dlodi plant yn un o gryfderau allweddol y Prosiect, a byddai llawer o'r rheiny a gafodd eu cyfweld wedi croesawu mwy o gyfleoedd i gael mwy o hyn.

3 Effeithiolrwydd wrth ddarparu cefnogaeth

- 3.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol fu CPSW wrth gefnogi awdurdodau lleol ac awdurdodau Cymreig eraill a enwir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, wrth iddynt ddatblygu eu strategaethau tloidi plant newydd.

Gweinyddu

- 3.2 Cafodd gweithgareddau eu seilio o gwmpas tri phrif elfen, sef:
- Cefnogaeth uniongyrchol i awdurdodau Cymreig – cyswllt wyneb yn wyneb, cyswllt dros y ffôn a'r e-bost, a digwyddiadau.
 - Gwefan y Prosiect – gwefan ddwyieithog yn cynnwys testun a fideo ar ddiffinio tloidi plant, canllawiau ar bolisi a strategaeth sy'n benodol i sectorau gwahanol, llyfrgell o dystiolaeth a darllen cefndirol, gwybodaeth ar ddangosyddion ac RBA.
 - Codi ymwybyddiaeth gyffredinol a chasglu tystiolaeth ar dlodi plant.
- 3.3 Penododd Achub y Plant gydgysylltydd Prosiect i gyflawni'r tasgau hyn, gyda chefnogaeth weinyddol ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Achub y Plant. Cafodd gwaith y Prosiect ei gefnogi hefyd gan grŵp llywio, a chaiff hyn ei drafod ymhellach ym mhennod 6.
- 3.4 Mae'r Prosiect yn cynnal cysylltiadau agos â thîm nawdd Llywodraeth Cymru, a chafwyd sylwadau gan yr awdurdodau am gysondeb y negeseuon a oedd yn cael eu cyfleu gan y ddau barti – 'mae'r synergedd â Llywodraeth Cymru yn allweddol' gan ei fod yn rhoi hyder i awdurdodau bod yr hyn y cawsant eu cynghori i baratoi yn bodloni gofynion y ddau barti. Rhoddwyd trefniadau ar waith i fonitro ac adolygu'r gweithgareddau hyn, gyda'r cydgysylltydd yn rhoi adroddiadau cynnydd rheolaidd i Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiadau hyn yn bennaf yn adroddiadau ansoddol o'r gweithgareddau a gynhaliwyd, ac mae'r adroddiadau wedi bwydo i mewn i'r gwerthusiad hwn.

Sylwadaeth ar y trefniadau gweinyddol

- 3.5 Ar y cyfan, ymddengys bod y strwythur staffio yn effeithiol wrth gyflawni'r dasg o ddarparu cefnogaeth, yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd gan y rheiny yr ymgynghorwyd â hwy. Fodd bynnag, amlygodd ymgynghoriadau'r gwerthusiad hefyd rai cryfderau a gwendidau sy'n ymwneud â'r trefniadau gweinyddol:
- 3.6 **Hawdd ei gyrraedd** – Roedd un agwedd o'r gefnogaeth yn arbennig o gryf, sef bod y cydgysylltydd yn hawdd mynd ato. Soniwyd am hyn ym mron bob cyfweiliad a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Ystyriwyd bod cydgysylltydd CPSW yn wybodus ac yn gallu helpu gyda'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd, neu'n gallu cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth neu gymorth. Unwaith eto, roedd y cyfweleion yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y cydgysylltydd yn wybodus ac yn hyddysg am ffynonellau amgen o wybodaeth neu gymorth. Ochr arall y geiniog nad yw mor gadarnhaol yw'r ffaith bod yna ddisgwyliad ar y Prosiect i gynnig cyngor a chefnogaeth ar bopeth.
- 3.7 **Rhai canfyddiadau o ddiffyg arbenigedd / materion yn ymwneud â chapasiti** – Codwyd pryderon gan leiafrif o'r ymgynghoreion am ddiffyg dealltwriaeth fanwl Datrys Tlodi Plant o'u sector neu eu sefydliad penodol. Roedd eraill o'r farn nad oedd y wefan mor gyfredol ag y gallai fod (gweler adran 3.29). Serch hyn, cydnabu'r holl ymgynghoreion ei bod yn amhosibl i un unigolyn fod yn arbenigwr ar weithgareddau'r holl awdurdodau. Yn wir, mae model gweithio Datrys Tlodi Plant yn osgoi cyngor arbenigol sy'n benodol i'r pwnc, gan adael hynny i'r awdurdodau eu hunain.
- 3.8 **Ansefydlogrwydd a materion yn y tymor hwy** – Ystyriwyd bod ansicrwydd am gyllido yn y dyfodol yn amharu ar y broses o gynllunio'r gefnogaeth a ddarperir yn y dyfodol. Ni fydd y gwasanaeth yn parhau heb gyllid grant ac nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto. Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn rhoi tystiolaeth i lywio'r penderfyniad hwnnw, ond mae adeg gritigol ar y gorwel lle bo angen naill ai cynllunio ar gyfer y dyfodol neu gynllunio ar gyfer dirwyn y Prosiect i ben.

Effeithiolrwydd y Gefnogaeth a Ddarperir

- 3.9 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwerthusiad yn ymwneud ag amryw elfennau'r gefnogaeth a ddarperir gan y Prosiect (gweler adrannau 2.3 – 2.21 i gael trosolwg o'r meysydd cefnogaeth).
- 3.10 Dylid nodi ar y cam hwn y bu canmoliaeth fawr i'r rheiny sydd wedi bod yn rhan o'r broses o ddarparu cefnogaeth CPSW – yn benodol cydgysylltydd Datrys Tlodi Plant Achub y Plant. Roedd y partneriaid yn unfryd bron yn eu canmoliaeth o'r cydgysylltydd am ei frwdfrydedd a'r eglurdeb y mae'n ei gynnig i faes tlodi plant, a hynny tra'n gweithio dan y pwysau a ddisgrifiwyd o ran capasiti. Mae'r gwerthusiad hwn yn casglu ei bod yn annhebygol y byddai modd darparu'r gweithgareddau a gynhaliwyd gystal heb yr ysgogiad cryf a'r brwdfrydedd a ddangoswyd.
- 3.11 Ar y cyfan, roedd y cyfweleion yn credu bod y rhaglen gefnogaeth yn effeithiol iawn ac wedi'i darparu'n dda. Yn gyffredinol, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r digwyddiadau (cynadleddau, gweithdai), gyda'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i rwydweithio â phartneriaeth eraill. Roedd lleiafrif o'r cyfweleion yn fwy beirniadol o'r digwyddiadau hyn (gweler 2.12).
- 3.12 Mae tystiolaeth gan awdurdodau yn awgrymu bod y rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o'r Mesur cyn i Datrys Tlodi Plant gysylltu â hwy. Ceir tystiolaeth hefyd fodd bynnag, nad oedd yr awdurdodau yn hyddysg am bwnc tlodi plant.
- 3.13 Yn gyffredinol, nid oedd modd i awdurdodau alw ar gefnogaeth arall.
- 3.14 Roedd yr ymgynghoreion yn unfryd yn eu canmoliaeth o natur, cywair a hygyrchedd y gwasanaeth. Bu'r gefnogaeth yn fodd iddynt ddadlau eu hachos i gydweithwyr drwgdybus, deall tlodi plant yn well, arbed amser wrth ddod o hyd i ddeunyddiau ar gyfer eu strategaethau a rhwydweithio mewn digwyddiadau. Arweiniodd hyn oll at strategaethau mwy trylwyr ac ystyrlon.

Cyflawniadau

Gwell ddealltwriaeth o dlodi plant

- 3.15 Hyd yn hyn, mae'r dystiolaeth wedi dangos yn glir fod Datrys Tlodi Plant yn llwyddo i fod yn niwtral ac yn gefnogol. Amlygodd y cyfweiliadau lefelau uchel o foddhad ag ansawdd y gefnogaeth unigol, y wefan a'r digwyddiadau. Rydym yn nodi hefyd fod rôl y Prosiect wedi esblygu ac mae wedi mabwysiadu rôl ehangach fel arbenigwr ar dlodi plant y tu hwnt i'r awdurdodau Cymreig. Erys un cwestiwn allweddol, sef beth mae hyn wedi'i gyflawni?
- 3.16 Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod cyfweiliadau yn awgrymu'n gryf bod Datrys Tlodi Plant wedi arwain at lefel uwch o ddiddordeb mewn tlodi plant, ac ymwybyddiaeth ohono. Aeth un unigolyn ati i grynhoi'r effaith y mae'r Prosiect wedi'i chael ar yr awdurdod dan sylw, drwy ddweud bod yr wybodaeth a ddarparwyd wedi helpu i dynnu'r sefydliad o sefyllfa lle'r oedd diffyg gwybodaeth, i sefyllfa lle maent bellach yn gennad tlodi plant ar gyfer eu sector, ac erbyn hyn 'rydym yn gwybod beth a olygir wrth dlodi plant mewn gwirionedd'. Mae tystiolaeth hefyd fod amrywiaeth ehangach o staff yn cymryd rhan mewn trafodaethau mewnol am dlodi plant a bod negeseuon Datrys Tlodi Plant wedi'u rhannu'n eang o fewn awdurdodau.
- 3.17 Un canlyniad pendant yw bod mwy o strategaethau tlodi plant wedi'u creu. Gall awdurdod Cymreig gael ei ryddhau o'i ddyletswydd i greu strategaeth os yw'n aelod o Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc pob ardal awdurdod lleol y mae ei weithrediadau yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, gallant lunio eu strategaeth eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac mae cydgysylltydd y Prosiect wedi llwyddo i berswadio sawl awdurdod i wneud hynny. Roedd yn ddiddorol nodi'r farn 'mae'n well i ni gael ein strategaeth ein hunain'. Nododd nifer o'r cyfweleion fod eu strategaethau yn 'fwy ystyrlon' ac yn fwy perthnasol a chadarn o ganlyniad i gyfraniad Datrys Tlodi Plant.

Parc Cenedlaethol Eryri

Yn sgil y cyswllt â CPSW, crëwyd Strategaeth benodol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri

Yn ôl y swyddog, roedd dryswch i ddechrau o ran p'un a ddylent greu Strategaeth Tlodi Plant unigol ar gyfer un Parc Cenedlaethol, a fyddai'n sefyll ar wahân i'w cynlluniau gweithredu ar gynhwysiant cymdeithasol, neu a ddylent gynnwys tlodi plant mewn Strategaeth ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru-gyfan. Cawsant eu hannog gan CPSW i lunio eu Strategaeth eu hunain, a'r farn a nodwyd oedd bod hynny bellach 'yn fantais'. Heb ddylanwad CPSW, ni fyddai'r Parc wedi llunio ei Strategaeth ei hun gan fod hynny wedi golygu mwy o waith. Erbyn hyn, maent yn teimlo ei bod yn fantais gan fod hyn yn golygu bod Parc Cenedlaethol Eryri yn cymryd mwy o berchenogaeth am dlodi plant. Yn ogystal, roedd llunio Strategaeth ar wahân yn golygu bod modd ei theilwra i ystyried anghenion lleol a'r gwahanol faterion sy'n flaenoriaeth mewn gwahanol rannau o Gymru.

Cefnogaeth

Roedd y swyddog yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael mynychu un o'r digwyddiadau, gan nodi bod y digwyddiad yn 'fuddiol' ac yn 'hwb bach' tuag at gwblhau'r Strategaeth a'i blaenoriaethu o fewn amserlen brysur iawn.

Nid oedd y Parc yn 'defnyddio'r wefan ddigon' ond gan fod yna orgyffwrdd sylweddol gydag awdurdod lleol Gwynedd – a oedd wedi paratoi ei Strategaeth Tlodi Plant ei hun fel rhan o'i Gynllun Plant a Phobl Ifanc – yn ystod y flwyddyn flaenorol, roedd modd iddynt gael mynediad hawdd at lawer o'r data perthnasol gan bartneriaid yn y cyngor.

Y Strategaeth

Croesawyd y Strategaeth, ac mae'n rhan o newid mewn agwedd – lle gynt, y farn gyffredinol oedd 'parc cenedlaethol ydym ni, beth allwn ni ei wneud?', yn awr, ceir mwy o ddealltwriaeth o dlodi o ran cyfleodd.

Mae'r gwaith o lunio'r Strategaeth wedi arwain at sefydlu perthnasau gweithio newydd ac ailgydio mewn hen gysylltiadau â phartneriaid darparu – er enghraifft atgyfnerthwyd y berthynas rhwng y Park a Barnardo's, ac maent yn cydweithio ar brosiectau ym Mlaenau Ffestiniog. Mae hefyd wedi arwain at ailfeddwl am y ffordd y maent yn dosbarthu grantiau, ac yn canolbwyntio ar hyrwyddo grantiau.

Helpu awdurdodau i arbed amser

3.18 Ceisiodd nifer o ymatebwyr i egluro effaith y gefnogaeth drwy ddisgrifio pa sefyllfa y byddai'r awdurdod ynddi heb gymorth Datrys Tlodi Plant.

Trafodwyd y ffaith y byddai staff yr awdurdod wedi treulio llawer mwy o

amser yn paratoi'r strategaethau ac yn chwilio am ddeunyddiau dros eu hunain. Yn ôl un o'r cyfweleion 'heb Datrys Tlodi Plant, byddai wedi cymryd llawer mwy o amser i ni gyrraedd ein nodau'. Aeth un arall ati i gymharu'r profiad o dderbyn cefnogaeth gan CPSW â cheisio cael gwybod am Gymunedau'n Gyntaf ryw ddeng mlynedd yn ôl:

'Roedd yn anodd bryd hynny. Treuliais i amser hir yn ceisio cael gwybod mwy, yn ceisio gwneud cysylltiadau, ac roedd yn ffordd aneffeithiol iawn o weithio. Roedd yn broses dorcalonnus a chafodd llawer o amser ei wastraffu. Mae hyn wedi bod yn broses fwy defnyddiol ac ysgogol o lawer ac yn sgil y broses hon, rydym yn gwneud pethau eraill fel cydweithio â phartneriaid'.

Mae'r fath effeithiolrwydd yn ymwneud yn rhannol â'r gwerth ychwanegol y mae'r Prosiect wedi'i gynnig i'r awdurdodau a gefnogwyd (gweler hefyd pennod 5).

Sefydlu partneriaethau newydd a ffyrdd newydd o weithio

3.19 Mae'r digwyddiadau (ac i raddau helaeth, y cyswllt unigol) a ddarparwyd i'r awdurdodau wedi arwain at greu partneriaethau newydd, yn ôl y cyfweleion. Nid yw'r partneriaethau hyn wedi'u cyfyngu i gysylltiadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â mynd i'r afael â thlodi plant, ond yn hytrach wedi gorlifo i wasanaethau eraill a ddarperir. Mae hyn yn arbennig o wir gydag awdurdodau sy'n cyflwyno prosiectau tebyg neu sy'n cyflwyno i grwpiau cleientiaid tebyg. Ar ôl y cyflwyniadau cychwynnol, mae cyfarfodydd wedi'u cynnal yn annibynnol o'r cydgysylltydd, ac yn parhau i gael eu cynnal.

3.20 Mae gan Achub y Plant a'r awdurdodau unigol hanes da o gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid, ond roedd y cyfleoedd rhwydweithio a gynigiwyd gan ddigwyddiadau Datrys Tlodi Plant wedi atgyfnerthu'r cysylltiadau hynny. Yn ôl tystiolaeth ansoddol a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad, bu modd i Datrys Tlodi Plant atgyfnerthu'r cysylltiadau hyn drwy:

- Hyrwyddo'r thema o dlodi plant ymysg nifer o bobl broffesiynol yn y maes iechyd (nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â pharatoi

Strategaethau Tlodi Plant); aeth y Prosiect ati i dynnu ar y ffaith bod pwyslais ar gyflawni targedau tlodi plant yn Fframwaith Ansawdd Blynyddol GIG Cymru am y tro cyntaf⁶.

- Cyfrannu at ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o dlodi plant yn y sector addysg.
- Rhoi cyfleoedd i awdurdodau rwydweithio a rhannu profiadau, a darparu ystod o adnoddau iddynt yn deillio o amryw ffynonellau yng Nghymru a'r DU.

3.21 Roedd canfyddiad bod Datrys Tlodi Plant yn gatalydd ar gyfer ffyrdd newydd o weithio, prosiectau newydd a syniadau newydd. Ar ben hyn, roedd rhai awdurdodau yn credu eu bod nhw wedi mynd rhagddynt i fod yn genhadon tlodi plant eu hunain, yn briffio pobl yn eu sector am y pwnc. Dim ond un dylanwad ymysg nifer yw Datrys Tlodi Plant yn y cyddestun hwn, serch hynny, dywedwyd wrth y tîm gwerthuso bod eu 'brwdfrydedd [dros fynd i'r afael â thlodi plant] yn ysbrydoledig'. Roedd un awdurdod a gynorthwywyd gan y Prosiect wedi'i ysgogi i gynnal cynhadledd yn ymwneud â thlodi plant ac, er ei bod yn bosibl y byddai hyn wedi digwydd heb y gefnogaeth, roeddent yn teimlo bod y trafodaethau â Datrys Tlodi Plant 'yn sicr wedi rhoi hwb i ni'.

3.22 Nid oedd pob un o'r awdurdodau wedi newid eu llwybr oherwydd Datrys Tlodi Plant. Roedd ambell un yn hyderus yn eu gwybodaeth o'r pwnc a heb deimlo'r angen i dynnu'n helaeth ar gefnogaeth y Prosiect: roeddent o'r farn y byddai eu strategaethau wedi bod fwy neu lai yr un peth heb Datrys Tlodi Plant. Roedd lleiafrif o'r awdurdodau o'r farn bod llunio strategaeth yn 'rhywbeth yr oedd yn rhaid i ni ei wneud', ac ni ellir dweud eu bod yn ymgysylltu'n llawn â'r gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant, er gwaethaf y gefnogaeth.

3.23 Mae'r Prosiect wedi ennill ei blwyf fel ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth a chefnogaeth. Yn gynyddol, mae sefydliadau eraill nad ydynt wedi'u henwi yn y Mesur yn dod at Datrys Tlodi Plant i geisio

⁶ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/490/Final%20AQF%202011-12%20%2024%2001%2011.pdf>

gwybodaeth. Adlewyrcha hyn raddau'r awydd am wybodaeth am y pwnc, yn ogystal â pharch at ddeunyddiau'r Prosiect.

Effeithiau anuniongyrchol

3.24 Cafwyd enghreifftiau o effeithiau pellach yn ystod y gwaith maes, fodd bynnag, mae'n anodd datod effaith y gefnogaeth o effaith cael eu henwi ym Mesur 2010. Canfu'r gwaith maes, er enghraifft, weithgareddau newydd, megis:

- mwy o brosiectau yn cael eu cynnal; (disgrifiodd un o'r Parciau cenedlaethol brosiectau ymarfer corff awyr agored newydd, a drefnwyd ar y cyd gan bartneriaid Cymunedau'n Gyntaf newydd, tra bod yr Amgueddfa Genedlaethol wedi ehangu ac ail-ffocysu prosiect cyfranogol presennol ar gyfer pobl ifanc;
- mwy o ymwybyddiaeth o dlodi plant, a mwy o ddiddordeb ynddo;
- gweld rhannau o raglenni gwaith presennol o safbwynt mynd i'r afael â thlodi plant – er enghraifft daeth tlodi plant yn ffactor cryfach wrth ddylunio a dyfarnu cynlluniau grant;
- mynd ati'n fwy systematig i ymgysylltu â grwpiau dan anfantais;
- tlodi plant i'w weld yn amlycach ar agendâu, a phapurau briffio mewnol ar y pwnc yn cael eu creu;
- adolygu briffiau ymchwil mewnol a briffiau a gomisiynir yn allanol er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â thlodi plant;
- mae ffynhonnell o enghreifftiau o sut y gall cyrff cyhoeddus fynd i'r afael â thlodi plant bellach ar gael.

3.25 Fodd bynnag, gellir priodoli'r gweithgareddau hyn i raddau helaeth i'r Mesur a'r rhwymedigaeth a roddwyd ar awdurdodau i baratoi Strategaethau Tlodi Plant. O ganlyniad, ni ellir eu priodoli'n gyfan gwbl i'r gefnogaeth a ddarperir gan CPSW. Nododd sawl un o'r awdurdodau eu bod wedi dod yn fwy ymwybodol o dlodi plant yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno Mesur 2010, a'u bod eisoes wedi penderfynu y byddai edrych i mewn i ffyrdd o fynd i'r afael â thlodi plant yn gam craff o safbwynt

gwleidyddol. Mae'n amhosibl felly i bennu pa ddylanwad, os o gwbl, a gafodd CPSW ar y newidiadau a welwyd.

Ffactorau llwyddiant ac anawsterau

3.26 Roedd y Prosiect wedi diwallu anghenion yr awdurdodau Cymreig i raddau helaeth. Mae'r gwerthusiad yn tybio bod y ffactorau canlynol wedi chwarae rhan allweddol yn llwyddiant y Prosiect.

- Mae'r Prosiect yn seiliedig ar egwyddor glir a syml – sef y syniad y dylid cefnogi'r holl awdurdodau a enwir yn y Mesur. Roedd hyn, yn ei dro, wedi hyrwyddo ymdeimlad o degwch, a theimlad bod gwybodaeth ac adnoddau yr un mor hygyrch i bob awdurdod.
- I ryw raddau, cafodd y gefnogaeth ei theilwra i adlewyrchu anghenion y gwahanol sefydliadau (er enghraifft, cynhaliwyd dwy seminar yn arbennig ar gyfer cynulleidfa'r sector iechyd a chafodd y gwefan ei rhannu'n adrannau penodol i sectorau).
- I raddau helaeth, roedd Achub y Plant a Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r un negeseuon, yn sgil cyfarfodydd ar y cyd a gynhaliwyd yn ystod y camau cynnar.
- Cafodd unigolion a sefydliadau eu hatgoffa'n rheolaidd bod angen iddynt baratoi'r strategaethau erbyn y dyddiad a bennwyd.
- Heriodd y Prosiect awdurdodau i feddwl yn ehangach am dlodi plant mewn cyd-destun polisi cymdeithasol ehangach. Roedd hyn yn ei dro wedi'u galluogi i werthfawrogi sut mae tlodi plant yn berthnasol i'w gweithgareddau, ac yna bu modd iddynt adlewyrchu hyn yn eu strategaethau tlodi plant.
- Cytunodd y rhanddeiliaid bod effaith weledol y wefan yn gryf. Yn ystod y cyfweiliadau, mynegwyd bod y deunyddiau a'r brandio ar y wefan yn cyfleu argraff o niwtraliaeth. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig am ei bod yn eu darbwylllo nad oedd yna nod o wthio agendâu yr oedd unrhyw sefydliad unigol am eu hyrwyddo. Roedd cyfoeth yr adnoddau a'r deunyddiau cefndirol a oedd ar gael hefyd yn cael ei ystyried yn gryfder allweddol.

- 3.27 Roedd y cyfweleion o'r farn na fyddent yn cael yr un graddau o ddealltwriaeth gan swyddogion y Llywodraeth. Cafodd y cyswllt ei ddisgrifio fel 'cyfleus' ac nad oedd 'pwysau mawr yr ochr arall i'r llinell'. Gwerthfawrogwyd yr anogaeth gadarnhaol ac ystyriwyd ei bod yn ffordd well o weithio nag ymateb i 'was sifil yn holi sut mae'r Strategaeth yn dod yn ei blaen' (gweler hefyd 2.19). Ymddengys, felly, bod CPSW wedi mabwysiadu ymagwedd o gefnogaeth a darbwyllo yn hytrach na gorfodaeth er mwyn annog awdurdodau i lunio eu strategaethau. Croesawyd hyn gan y cyfweleion, ac ymddengys y bu'n ffordd effeithiol o sicrhau bod yr awdurdodau yn llunio'r strategaethau gofynnol.
- 3.28 Yn olaf, roedd y rhanddeiliaid yn ystyried bod model y siop un stop niwtral, anllywodraethol ar gyfer popeth sy'n gysylltiedig â thlodi plant, yn effeithiol. Ceir tystiolaeth bod galw parhaus am y gefnogaeth. Roedd y cyfweleion o'r farn y gallai unigolyn a gyflogwyd gan sefydliad arweiniol ysgogi mwy o ymwybyddiaeth ac arbenigedd ar dlodi plant; roedd canfyddiad hefyd y byddai'n anoddach i gysylltu ag unigolion er mwyn ceisio cefnogaeth pe bai'n cael ei darparu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Roedd rhai o'r farn y byddai cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig rywfodd ag agendâu ehangach, megis pa gyllid fyddai ar gael i awdurdodau unigol yn y dyfodol. Roedd llawer felly yn gwerthfawrogi'r canfyddiad bod CPSW yn hawdd mynd ato ac yn niwtral. Ystyriwyd ei bod yn hanfodol bod y ffynhonnell o gyngor a chefnogaeth yn hawdd mynd ati, yn meddu ar wybodaeth arbenigol am y pwnc ac yn ddiuedd.
- 3.29 Er bod yr awdurdodau yn croesawu'r gefnogaeth yn fawr, fe leisiodd lleiafrif o randdeiliaid bryderon am agweddau ar y broses ddarparu. Mae rhai o'r pryderon hynny wedi'u hamlinellu isod:
- **Diffyg dealltwriaeth fanwl o'r awdurdodau** – lleisiwyd pryderon gan rai awdurdodau nad oedd gan CPSW ond dealltwriaeth arwynebol o natur eu gwasanaethau, a bod hyn wedi cyfyngu ar y graddau y bu modd i'r Prosiect gynnig cefnogaeth benodol. Er bod y rhanddeiliaid yn credu bod y cydgysylltydd yn amlwg yn wybodus iawn am faterion yn ymwneud â thlodi plant, nid oedd y cysylltiad â gwahanol

agweddau ar waith yr awdurdod bob amser yn cael ei wneud. Cydnabu'r rhanddeiliaid fodd bynnag, bod cynnig cefnogaeth i amrywiaeth eang iawn o sefydliadau a'r amryw gyd-destunau y maent yn gweithredu ynddynt yn gylch gwaith eang iawn i un unigolyn.

- **Cefnogaeth yn canolbwyntio ar Gaerdydd** – roedd rhai o'r ymgynghoreion yn dweud mai prin iawn oedd y gefnogaeth a gynigiodd y Prosiect drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y wefan yn ddwyieithog, nid oedd y gwasanaeth ei hun yn wasanaeth dwyieithog, ac nid oedd yn cynnig unrhyw ffordd o ohebu neu drafod materion yn Gymraeg. Roedd rhai o'r awdurdodau yn ardaloedd eraill Cymru yn teimlo bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar Gaerdydd, gyda thueddiad, yn eu barn hwy, i gynnal gormod o'r digwyddiadau yn y brifddinas.
- **Nid yw'r wefan yn cael ei diweddarau'n barhaus** – nododd y cyfweleion nad yw'r wefan bob amser yn gwbl gyfredol, a'i bod yn cynnwys ambell ddolen nad oedd yn gweithio. Fe gredent fod hyn o ganlyniad i bwysau ar amser cydgysylltydd y Prosiect. Dylid sicrhau bod y dolenni i'r strategaethau sydd wedi'u cyhoeddi yn cael eu cynnwys fel mater o flaenoriaeth, gan fod methiant i wneud hynny yn debygol o roi'r argraff bod y gwasanaeth wedi dyddio a/neu nad yw'n cadw'n gyfredol â datblygiadau yn y maes. Fe allai hyn yn ei dro danseilio hyder yng nghynnwys y wefan. Dywedodd eraill y byddent yn croesawu mwy o enghreifftiau o arfer da ar y wefan, gan y byddai'n 'ddefnyddiol gweld sut aeth eraill ati i gasglu tystiolaeth, a gwneud yr achos dros eiriolaeth a chyllid.'
- **Colli cyfleoedd i greu partneriaethau** – roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y gellid fod wedi gwneud mwy i annog awdurdodau i gysylltu â strategaethau ei gilydd neu i uno agweddau o'u strategaethau. Mae sawl un o'r awdurdodau yn gweithio gyda'r un grŵp cleientiaid, yn cyflwyno prosiectau tebyg, yn mynd i'r afael â'r un nodau eang (gweler Atodiad 2) ac yn wynebu heriau tebyg wrth gofnodi canlyniadau. Gan hynny, gallai cyfuno neu gysylltu â strategaethau ei gilydd ychwanegu cryfder a ffocws sylweddol i'r materion a'r themâu penodol.

- **Diffyg eglurdeb o ran y camau nesaf a'r gwaith monitro** – roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn synnu nad oeddent wedi cael unrhyw ymateb neu adborth gan Lywodraeth Cymru ar ôl cyhoeddi eu strategaethau. Credai rhai bod gormod o bwyslais wedi'i roi ar gyhoeddi'r strategaeth yn hytrach na chanolbwyntio ar barhau â'r momentwm a grëwyd yn sgil ei chyhoeddi.
- **Ceir awydd am fwy fyth o adnoddau** – byddai awdurdodau yn croesawu mwy o ddeunyddiau, yn arbennig canllawiau ar sut i gyflwyno tlodi plant i gydweithwyr drwgdybus, cyflwyniadau parod i'w lawrlwytho a phapurau briffio, deunyddiau ar gyfer pecynnau cynefino i staff newydd a nodiadau briffio ar gyfleu cysyniadau allweddol megis RBA mewn termau lleyg.

4 Anghenion y dyfodol

- 4.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y gwahanol fathau o gefnogaeth a chyngor a ddarperir gan Datrys Tlodi Plant, ac i ba raddau y mae hyn yn debygol o ddiwallu anghenion a gofynion awdurdodau lleol Cymru a chyrrff cyhoeddus wrth iddynt gyflwyno eu strategaethau tlodi plant newydd yn y dyfodol.

Cefnogaeth barhaus

- 4.2 Mae cefnogaeth y Prosiect yn parhau er bod y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r strategaethau tlodi plant wedi bod. Mae'r gwaith o roi awdurdodau mewn cysylltiad â phrosiectau ac adnoddau eraill yn mynd rhagddo'n barhaus, yn ogystal â'r gwaith o ddiweddarau'r wefan. Mae gwaith cyfredol CPSW hefyd yn canolbwyntio ar gynghori Byrddau Gwasanaeth Lleol ac ymateb i ymholiadau ad-hoc gan yr awdurdodau.
- 4.3 Neges allweddol y cyfweleion yw mai canllawiau ar fonitro a gwerthuso eu cyflawniadau yn erbyn yr ymrwymïadau a nodir yn eu strategaethau fydd eu prif anghenion o ran cefnogaeth yn y dyfodol. Yn nhermau trefniadau monitro cyfredol, roedd y dystiolaeth yn amrywio o arferion da (e.e. adroddiadau chwarterol i reolwr llinell am y strategaeth, cardiau sgôr RBA, ymgorffori mesuriadau i gylch cynllunio busnes yr awdurdod) i ddiffyg unrhyw arferion o gwbl ('byddwn yn ystyried gwaith monitro yn 2014'). Eglurodd awdurdodau nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw ganllawiau am fonitro cyflawniadau yn erbyn y nodau a bennir yn y strategaeth nac yn cysylltu yn ôl â'r nodau cenedlaethol, ac y byddent yn ceisio cyngor gan CPSW ar y materion hyn.
- 4.4 Dywedodd rhai cyfweleion eu bod wedi'i chael hi'n anodd nodi canlyniadau ac nad oedd ganddynt systemau ar waith i'w hasesu – 'mae gennym ddarlun [o waelodlin] ond nid yw'n un cadarn iawn. Nid oes gennym ni un cadarn oherwydd y gost'. Ar ben hyn, nid oedd pawb yn deall yn iawn sut i ddefnyddio'r ymagwedd RBA, a phrin iawn oedd y

ddealltwriaeth o sut y dylai canlyniadau'r awdurdod gael eu cysylltu â chanlyniadau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Anghenion y dyfodol

4.5 Y brif neges gan awdurdodau oedd bod yr angen am gefnogaeth tlodi plant yn parhau. Erys llawer o'r heriau a amlinellir, megis dadlau'r achos i gydweithwyr neu chwilio am dystiolaeth. Amlinellwyd cyfres o heriau penodol:

- Staff newydd – mae trosiant staff yn anochel ac felly bydd angen parhaus i addysgu staff newydd neu aelodau bwrdd newydd am dlodi plant;
- Newid i drefniadau llywodraethu sefydliad (yr enghraifft benodol a geir yma yw'r corff newydd a grëwyd yn sgil uno swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru);
- Newidiadau i bolisi (cefnogaeth wrth gadw'n gyfredol â'r newidiadau i gynlluniau integredig sengl, creu cysylltiadau â Theuluoedd yn Gyntaf a newidiadau i Gymunedau'n Gyntaf.)
- Gofynion parhaus am gyngor ar fonitro a chyngor ar RBA;
- Sefydlu sut i gyd-fynd â'r agenda tlodi plant ehangach, a'r pryderon y gallai ffocws ehangach ar dlodi wanbau'r ffocws ar dlodi plant;
- Ymdopi â thoriadau i gyllidebau a'r her o gynnal lefel y gweithgareddau cyfredol mewn perthynas â thlodi, heb sôn am ei chynyddu.

5 Gwerth am arian

5.1 Mae'r bennod hon yn edrych i ba raddau y mae cytundeb Llywodraeth Cymru yn cynnig gwerth am arian. Mae'r data sydd ar gael a natur y Prosiect yn golygu nad oes modd gwneud ond astudiaeth gyfyngedig o werth am arian, fodd bynnag, gellir gwneud arsylwadau ar effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac economi, sydd gyda'i gilydd yn dylanwadu ar y gwerth am arian a geir.

Cyllid ar gyfer Datrys Tlodi Plant Cymru

5.2 Dyfarnodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol grant o £187,014 dros dair blynedd i Achub y Plant fel ariannu craidd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2013. Mae Atodiad 2 yn rhoi dadansoddiad manwl o'r costau rhagamcanol cyffredinol, sef £238,066, yn dangos gwahanol agweddau'r Prosiect, gan gynnwys costau'r cydgysylltydd a chreu a chynnal y wefan. Darparwyd cyllid ychwanegol mewn nwyddau gan Achub y Plant ac, am y tro cyntaf, gan CLILC a'r Uned Cefnogi Partneriaethau. Mae'r gwariant wedi bod yn unol â'r costau rhagamcanol.

Effeithiolrwydd

5.3 Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae'n amlwg y bu Datrys Tlodi Plant yn effeithiol wrth fodloni'r amcanion a bennwyd. Mae'r lefelau uchel o foddhad â'r gefnogaeth a ddarparwyd wedi arwain at ddealltwriaeth well o dlodi plant yn ei holl gymhlethdod, mwy o Strategaethau Tlodi Plant wedi'u llunio, arbed amser yr awdurdodau, ac mae Datrys Tlodi Plant wedi creu partneriaethau newydd.

Effeithlonrwydd

5.4 Mae'r 'cost fesul buddiolwr' enwol felly yn cynnwys mwy o lawer na'r sefydliadau a fynychodd y digwyddiadau neu nifer y cyfarfodydd a

gafodd eu cynnal, ac mae'n glir na ellir mesur y Prosiect ar y sail ariannol hon yn unig. Bydd gwerth gwirioneddol Datrys Tlodi Plant Cymru i'w weld yng nghynaliadwyedd y Prosiectau newydd a'r brwdfrydedd a gaiff ei feithrin, ac yn y cynnydd yn y diddordeb a'r ymwybyddiaeth o dlodi plant.

- 5.5 Gall y Prosiect gael mynediad at grant o £187,014 dros dair blynedd. Pe bai cost-ffeithiolrwydd y rhaglen yn cael ei hasesu yn nhermau syml y gost fesul pob strategaeth a gyhoeddwyd, yna £5,343 fyddai hynny; pe bai'n cael ei asesu fel cost fesul unigolyn sy'n cael hyfforddiant ar dlodi plant, byddai hynny'n amrywio o £125 yn 2010/11 i £219 yn 2011/12 (yn seiliedig ar y nifer a fynychodd y gweithdai yn ôl ffigurau adran 2.14). Fodd bynnag, roedd a wnelo'r Prosiect â mwy o lawer na darparu hyfforddiant neu gyhoeddi strategaethau. Mae'r 'cost fesul buddiolwr' enwol felly yn cynnwys mwy na'r ffigurau a nodir yma. Mae'n cynnwys, er enghraifft, y gallu i gael mynediad at amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau cefndirol a'r amser a gafodd ei arbed gan yr awdurdodau eu hunain wrth gael mynediad at y deunyddiau heb orfod chwilio amdanynt eu hunain. Mae yna fwy o ymwybyddiaeth o dlodi plant, a hynny ymysg y staff a fynychodd y digwyddiadau a'u cydweithwyr. Mae partneriaethau newydd wedi'u sefydlu a ffyrdd newydd o weithio wedi'u treialu. Mae'n glir felly na ellir mesur y cynllun hwn yn nhermau ariannol yn unig.

Economi

- 5.6 Nid oes archwilio gwariant manwl yn rhan o gwmpas yr astudiaeth hon. Ceir tystiolaeth fodd bynnag, y gwnaed ymdrechion i gadw'r costau i lawr drwy ddefnyddio adeiladau'r awdurdodau fel lleoliadau ar gyfer digwyddiadau a thrwy ddarparu ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid.
- 5.7 Mae'n amlwg y bu Datrys Tlodi Plant yn effeithiol wrth gyflawni'r holl amcanion a bennwyd ac roedd y gefnogaeth wedi diwallu anghenion yr holl gyff cyhoeddus. Roedd y strwythur gweinyddu yn briodol, er y byddai modd gwneud mwy o ddefnydd o'r grŵp llywio (gweler pennod

6). Wrth farnu effeithiolrwydd a gwerth am arian, fodd bynnag, mae angen cynnwys amrywiaeth o ffactorau eraill.

- **Ymwybyddiaeth ehangach o dlodi plant.** Ni ellir mesur y cost-effeithiolrwydd dim ond yn ôl y niferoedd a fynychodd digwyddiadau Datrys Tlodi Plant, neu nifer y strategaethau a gynhyrchwyd. Bydd nifer mwy o lawer o staff yr awdurdodau wedi derbyn deunyddiau a negeseuon drwy law eu cydweithwyr nag a fyddai wedi mynychu'r digwyddiadau. Mae yna dystiolaeth bod awdurdodau yn rhannu'r negeseuon allweddol â phartneriaid yn eu sector (yn arbennig y rheiny sy'n derbyn eu grantiau) ac mewn rhai achosion, maent yn disgwyl i'w sefydliadau partner ddilyn eu hesiampl a nodi eu hymrwymadau eu hunain at fynd i'r afael â thlodi plant maes o law. Aethpwyd ati hefyd i gefnogi a hwyluso sefydliadau na chawsant eu henwi yn y Mesur, er enghraifft y Mentrau Iaith a'r sector blynyddoedd cynnar.
- **Rhoi prawf ar y model o weithio.** Roedd Prosiect Datrys Tlodi Plant yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd o gyfnod 2007-2010 ac roedd cyllid 2010-2013 yn gyfle i gynnal Prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi awdurdodau Cymreig. Yn ystod y broses hon, roedd cyfleoedd i brofi a threialu ffyrdd o deilwra negeseuon ar gyfer amrywiaeth o sectorau. Roedd yn gyfle i ddeall yn well pa ffyrdd o gyfathrebu a oedd yn gweddu i'r pwnc a'r awdurdodau, ac i ddatblygu dulliau 'bachu' o ddarbwylo staff drwgdybus bod ganddynt rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â thlodi plant.
- **Sicrhau bod llenyddiaeth am dlodi plant ar gael i gynulleidfa ehangach.** Mae angen i dybiaethau am werth am arian hefyd ystyried y cyfleoedd i rannu syniadau a gwersi a ddysgwyd, a hynny nid yn unig ymysg yr awdurdodau Cymreig, ond hefyd mewn perthynas â gweithgareddau eu partneriaid. Mae gwefan y Prosiect yn adnodd sylweddol a fydd yn parhau'n werthfawr i awdurdodau Cymreig a llawer o sefydliadau eraill yn y dyfodol, yn enwedig wrth i'r Prosiect a'r awdurdodau ddatblygu'r rhwydwaith strategol o gysylltiadau o ran tlodi plant.

5.8 Ni fu'n bosibl cymharu costau cynnal y Prosiect â phrosiectau tebyg mewn mannau eraill. Er bod C4EO wedi rhoi cyngor ar dlodi plant i awdurdodau lleol Lloegr ar gyfer y cyfnod 2008-2011, nid oes modd dadelfennu costau'r elfen tlodi plant (a oedd yn un o naw o themâu a ariannwyd gan gyfanswm o £9m dros dair blynedd), a hefyd roedd yr ymgyrch honno yn wahanol iawn o ran ei graddfa a'i natur. Ar y cyfan, roedd y cyfweleion o blith yr awdurdodau Cymreig yn credu bod y Prosiect wedi cynnig gwerth da am arian a chredir ei fod yn fodel y gallai Llywodraeth Cymru ystyried ei gymhwyso ar gyfer pynciau a meysydd polisi eraill. Bydd gwerth gwirioneddol Datrys Tlodi Plant i'w weld wrth gwrs yn y camau gweithredu a gymerir gan yr awdurdodau a gefnogwyd i fynd i'r afael â thlodi plant dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Nodi manteision y gefnogaeth

Nododd y swyddog o Gyngor Cefn Gwlad Cymru y manteision o gael cefnogaeth gan Datrys Tlodi Plant. Eglurodd ei bod yn ddefnyddiol am sawl reswm i gael rhywun allanol:

- Roedd yn fanteisiol i'r awdurdod gael unigolyn allanol a fyddai'n 'mynnu' cyfarfod – cred y swyddog pe bai hi wedi trefnu a hwyluso'r cyfarfod, byddai swyddogion eraill wedi 'gwneud esgusodion' i beidio â mynychu oherwydd amserlenni prysur a chysyniad bod y pwnc yn rhywbeth ymylol. 'Nid oedd mor hawdd â hynny i bawb ddeall pam ein bod ni'n mynd ati i greu strategaeth'. Gyda hwylusydd allanol, ar y llaw arall, roedd elfen o gwrteisi wrth gytuno i fynychu.
- Roedd yn ddefnyddiol cael clywed am y **cefndir cyffredinol** i dlodi plant gan ei fod 'yn newydd i ni i gyd'. Croesawodd yn benodol y ffeithiau a'r ffigurau a gafodd eu cyflwyno, a'r rhesymeg y tu ôl i'r nodau eang a'r cysylltiad ag UNCRC.
- Roedd yn ysgogiad iddynt gael clywed am enghreifftiau o'r ffyrdd yr oedd awdurdodau eraill wedi mynd ati i fynd i'r afael â thlodi plant.
- Roedd yn ddefnyddiol cael unigolyn yno i 'herio' yr awdurdod ar ei gamau gweithredu a'i strategaeth ddrafft.

Roedd yn ddefnyddiol hefyd cael unigolyn i atgoffa'r awdurdod – heblaw am hynny, byddai wedi bod yn anodd iawn neilltuo digon o amser er mwyn cwblhau'r dasg.

6 Rôl ac effeithiolrwydd y grŵp llywio

- 6.1 Cafodd gwaith y Prosiect ei gefnogi gan grŵp llywio, gydag aelodau wedi'u tynnu o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ehangach, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Roedd y ffocws ar ddylunio a sefydlu'r Prosiect, ac erbyn adeg gwaith maes y gwerthusiad, roedd y grŵp wedi rhoi'r gorau i gyfarfod.
- 6.2 Cyfarfu'r grŵp llywio tua bob deufis rhwng mis Ebrill 2010 a Mehefin 2011. Cafodd y cyfarfodydd eu cadeirio gan uwch aelod o staff o Achub y Plant. Pennwyd y Cylch Gorchwyl, gan nodi y byddai'r aelodau craidd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gweithredu dros Blant, Barnardo's Cymru, Plant yng Nghymru, y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant, National Energy Action, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Achub y Plant, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i huned cefnogi partneriaethau ac Uned Tlodi Plant Llywodraeth Cymru.
- 6.3 Mabwysiadodd y grŵp llywio ei gylch gorchwyl ym mis Gorffennaf 2010, a oedd yn nodi mai ei ddiben oedd 'cynghori ar y broses o ddatblygu a phennu cyfeiriad strategol y rhaglen waith newydd sylweddol hon'.
- 6.4 Mae'r cylch gorchwyl yn pennu rôl aelodau'r grŵp llywio:
- Monitro ac adolygu'r rhaglen wrth iddi fynd yn ei blaen, gan gynnwys y gyllideb.
 - Rhoi sylwadau ac ychwanegu at ddeunyddiau a gaiff eu dosbarthu a'u cyflwyno.
 - Ceisio cyfleoedd i atgyfnerthu a gwella'r rhaglen a rhoi syniadau ychwanegol.
 - Hyrwyddo'r Prosiect o fewn y sectorau perthnasol a'r meysydd o arbenigedd.
 - Bod yn ffynhonnell o gyngor arbenigol a chefnogaeth ar gyfer cydgysylltydd y Prosiect fel y bo angen.
 - Mynychu cyfarfodydd rheolaidd ar sail 8-12 wythnos.

- Cymryd rhan lawn mewn partneriaethau a rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Prosiect ymysg rhanddeiliaid allweddol.
 - Sicrhau bod y grŵp llywio yn cynnal aelodaeth briodol a gweithredol.
 - Sicrhau bod yr holl benderfyniadau strategol allweddol a phenderfyniadau am aelodaeth y grŵp llywio yn cael eu gwneud mewn partneriaeth â'r aelodau.
- 6.5 Roedd monitro ac adolygu'r rhaglen yn weithgaredd allweddol ar gyfer y grŵp, ac roedd trafodaethau ar y cynllun gwaith yn ymddangos yn rheolaidd ar yr agenda ac yng nghofnodion y cyfarfodydd. Nid oes unrhyw gofnod yn y cofnodion o drafodaethau ar gyllidebau.
- 6.6 Mae'r cofnodion hefyd yn cofnodi trafodaethau am sut i ddylanwadu ar yr agenda yn y sectorau addysg ac iechyd, a chreu cysylltiadau â Theuluoedd yn Gyntaf, yn ogystal â manylion mwy ymarferol ar sut i gyflwyno cynadleddau a chynllunio'r gefnogaeth ar gyfer cyrff cyhoeddus. Nid oedd unrhyw gyrff cyhoeddus yn eistedd ar y grŵp llywio fodd bynnag. Mae'r cofnodion hefyd yn cofnodi apêl i'r grŵp llywio i gyfrannu capasiti, ac er i aelodau'r grŵp llywio helpu i ysgogi'r cysylltiad â'r sector iechyd, ymddengys nad oedd y cyfraniad i feysydd eraill mor gryf.

7 Casgliadau

- 7.1 Mae'r adran hon yn dechrau drwy amlinellu rhai o'r casgliadau eang o'r broses adolygu ac yna'n canolbwyntio ar bob un o nodau'r Prosiect.

Casgliadau cyffredinol

- 7.2 Mae'n amlwg bod y model o gael corff penodol yn gyfrifol am hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o lunio strategaethau tlodi plant yn cael ei werthfawrogi'n eang. Ystyria'r tîm gwerthuso bod cyfraniad CPSW wedi gwneud gwahaniaeth deinamig i'r broses o greu'r strategaethau hyn.
- 7.3 Un o gryfderau allweddol y Prosiect oedd y ffaith bod y cydgysylltydd wedi sicrhau ei bod ar gael i'r awdurdodau. Roedd hyn, ynghyd â gwybodaeth amlwg ac agwedd hawdd mynd ato y cydgysylltydd, wedi annog awdurdodau i fanteisio ar y gefnogaeth a oedd ar gael. Ymddengys bod hyn wedi arwain at greu mwy o strategaethau, a bod y strategaethau hynny wedi ystyried yn fanylach oblygiadau mynd i'r afael â thlodi. Fodd bynnag, mae'r rhinweddau hyn hefyd wedi arwain at fwy o alw am y gefnogaeth a mwy o ddisgwyliadau arni, gan roi mwy fyth o bwysau ar yr adnoddau a oedd ar gael.
- 7.4 Roedd y cyfweleion o blaid parhau â'r Prosiect. Mae'r rheiny a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn gweld bod angen a rôl i'r Prosiect wrth hyrwyddo a chefnogi tlodi plant ymysg yr awdurdodau, a hefyd, o bosibl, mewn amrywiaeth ehangach o safleoedd. Roedd un o'r cyfweleion wedi crynhoi barn llawer ohonynt drwy ddweud: 'peidiwch â meddwl am dorri'r gefnogaeth, dim ond nawr yr ydym ni'n dechrau meddwl am dlodi plant!'
- 7.5 Mae llawer yn ystyried bod Datrys Tlodi Plant bellach ar drothwy cyfnod newydd a bod angen ail-werthuso ac addasu'r gefnogaeth a ddarperir. Teimlir y dylid symud tuag at ddarparu mwy o gefnogaeth ar gyfer gwaith monitro ac adolygu, yn arbennig o ran RBA. Ar ben hyn, mae gan lawer o'r awdurdodau bryderon mewn perthynas â'r her o ganolbwyntio ar dlodi plant yn wyneb pwysau ariannol a phenderfyniad Llywodraeth

Cymru i gynnwys tlodi plant mewn cynllun gweithredu ehangach sy'n cynnwys oedolion.

Casgliadau mewn perthynas â nodau Datrys Tlodi Plant

- 7.6 Gan ymdrin â phob un o nodau'r Prosiect yn ei dro (gweler ffigur 2 ym Mhennod 1), roedd y Prosiect wedi llwyddo i gyflawni'r hyn y gofynnwyd iddo gyflawni:
- 7.7 **Ymestyn a datblygu ei waith cyfredol, drwy gyfrwng cydgysylltydd Prosiect dynodedig, er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun polisi sy'n newid yng Nghymru a'r DU, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, a'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar fynd i'r afael â thlodi plant a gwella'r canlyniadau ar gyfer teuluoedd incwm isel.** Roedd cydgysylltydd wedi'i benodi ers dechrau'r Prosiect ym mis Ebrill 2010. Cysylltwyd â'r holl gyrff cyhoeddus, a chynigiwyd cefnogaeth iddynt oll. Roedd y cyrff cyhoeddus yn hyderus y bu modd iddynt gael mynediad at y dystiolaeth ddiweddaraf drwy gyfrwng CPSW.
- 7.8 **Cynnal a gwella'r adnodd gwe presennol – er mwyn sicrhau ei fod dal ar gael, yn gyfredol ac yn berthnasol i anghenion yr awdurdodau Cymreig a nodir ym Mesur 2010.** Cafodd gwefan newydd ei lansio ym mis Tachwedd 2011. Mae'r wefan yn destun ymddiriedaeth, yn gynhwysfawr ac yn apelio'n weledol. Fodd bynnag, nododd sawl un o'r awdurdodau nad oeddent yn ei defnyddio rhyw lawer ac roedd hefyd mân gŵynion nad oedd deunyddiau yn ymddangos ar y wefan neu fod dolenni ar goll. Cafwyd awgrymiadau am sut i wneud y wefan yn adnodd mwy defnyddiol, drwy gynnwys yr awdurdodau mewn proses o gyfrannu ddwyffordd.
- 7.9 **Cefnogi awdurdodau Cymreig wrth gyflawni eu dyletswyddau newydd dan Fesur 2010 – er enghraifft drwy barhau i rwydweithio gydag awdurdodau Cymreig ledled Cymru er mwyn datblygu cyrsiau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o sut i fynd i'r afael â thlodi plant a parhau i weithio gydag awdurdodau Cymreig, er mwyn paratoi ar gyfer dyletswyddau newydd dan y Mesur arfaethedig, i**

godi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau o ran mynd i'r afael â tlodi plant. Y nod yw cyfuno hyn gyda gwaith i feithrin gallu a datblygu deunyddiau hyfforddi a chysiau ar gyfer awdurdodau Cymreig.

Cyfeiriwyd yr adnodd mwyaf tuag at y ddwy elfen hyn yn ystod y Prosiect, ac roedd CPSW wedi ymateb i anghenion a cheisiadau penodol yr awdurdodau. Roedd yr unigolion hynny a oedd yn gyfrifol am baratoi strategaethau tlodi plant yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth. Roedd y cyfarfodydd unigol yn gyfle i drafod agweddau penodol yn drylwyr ac roeddent yn arbennig o ddefnyddiol wrth wneud cysylltiadau â'r dystiolaeth a oedd ar gael. Mae'r gefnogaeth a ddarparwyd dan y ddwy elfen hyn o waith yn tanlinellu pa mor ymatebol a hygyrch fu'r Prosiect.

- 7.10 Roedd llawer o'r farn mai'r digwyddiadau oedd yr elfen bwysicaf o'r Prosiect, ac yn gyfle da i rwydweithio. Awgrymodd y cyfweleion ffyrdd o wella'r digwyddiadau er mwyn iddynt gael bod hyd yn oed yn fwy gwerthfawr yn y dyfodol.
- 7.11 Gwnaed gwaith i feithrin gallu yn ystod y cyfarfodydd unigol, drwy gyfrwng cyngor dros y ffôn neu'r e-bost, drwy gyfrwng adnoddau a deunyddiau a ddarparwyd yn uniongyrchol a thrwy'r wefan, drwy'r offeryn hunanasesu ar y wefan, a thrwy'r digwyddiadau. Ar y cyfan, roedd yr awdurdodau'n gwerthfawrogi ac yn croesawu pob elfen o'r gefnogaeth.
- 7.12 Mae cynyddu ymwybyddiaeth staff o dlodi plant yn mynnu newid sylweddol mewn diwylliant i lawer o'r awdurdodau. Canfu'r adolygiad bod unigolion a oedd yn gyfrifol am lunio'r strategaethau tlodi plant yn wynebu gorfod dadlau eu hachos yn fewnol. Yn hyn o beth, roedd y trafodaethau a gafwyd gyda'r cydgysylltydd a'r deunyddiau a ddarparwyd yn ystod y digwyddiadau yn gymorth ymarferol wrth helpu staff yr awdurdodau i weld y cysylltiad rhwng tlodi plant a gwaith yr awdurdodau.
- 7.13 O ran meithrin gallu yn y dyfodol, mae gwahaniaethau o ran sut yr eir ati i wneud gwaith monitro a gwerthuso, ac o ran yr awydd am ragor o gefnogaeth ar y pwnc.

- 7.14 **Hyrwyddo Datrys Tlodi Plant Cymru i gynulleidfaeodd newydd, er mwyn helpu i rannu arferion gorau wrth fynd i'r afael â thlodi plant (ac i fireinio'r gefnogaeth a gynigir mewn meysydd gwasanaeth arbenigol megis addysg, iechyd a Chymunedau'n Gyntaf).** Roedd croeso i'r model o ddigwyddiadau, gwybodaeth a ffynhonnell o gefnogaeth anllywodraethol a diduedd. Ceir galw cynyddol arno gan amrywiaeth ehangach o sefydliadau fel ffynhonnell o dystiolaeth a chynghor. Llwyddodd y Prosiect i ennill ei blwyf fel ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth a chefnogaeth i awdurdodau lleol ac awdurdodau Cymreig ac roedd hyn yn llwyfan ar gyfer cysylltu â meysydd eraill, megis addysg ac iechyd. Mae cyfleodd hyfforddi wedi'u cyflwyno yn ystod digwyddiadau penodol ar gyfer y sector iechyd.
- 7.15 Yn gynyddol, mae sefydliadau eraill nad ydynt wedi'u henwi yn y Mesur yn dod at Datrys Tlodi Plant i geisio gwybodaeth. Adlewyrcha hyn raddau'r awydd am wybodaeth am y pwnc, yn ogystal â pharch at ddeunyddiau'r Prosiect.

Gweithgareddau y tu hwnt i'r nodau a bennwyd

- 7.16 Ystyria'r gwerthusiad hon y bu trefn a strwythur Prosiect Datrys Tlodi Plant Prosiect yn effeithiol. Roedd rheolaeth y Prosiect gan Lywodraeth Cymru, gwaith blaenorol a wnaed gan brosiect 2007-2010 a chefnogaeth gynnar y grŵp llywio wedi sicrhau bod y Prosiect wedi dechrau ar sail gadarn, ac wedi gallu tynnu ar wybodaeth ac arbenigedd amrywiaeth o bartneriaid allweddol. Ar sail y farn a fynegwyd gan yr awdurdodau yn ystod y cyfweiliadau, mae'r Prosiect wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r lefel o ymwybyddiaeth o dlodi plant, a'i broffil. O ystyried mai dim ond un cydgysylltydd a gyflogwyd gan y Prosiect, mae'n deg dweud y bu'n llwyddiant ysgubol, ac mae hyn o ganlyniad helaeth i frwdfrydedd ac ymrwymiad y cydgysylltydd ac Achub y Plant.
- 7.17 Er bod y strwythur presennol yn gweithio'n effeithiol, mae'r arian grant yn dod i ben ym mis Mawrth 2013. Dylid ystyried dau beth wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y gefnogaeth a ddarperir mewn perthynas â thlodi plant:

mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant a thlodi, ac erys awydd parhaus am wybodaeth a chyfarwyddyd ar y pwnc hwn gan awdurdodau Cymreig a sefydliadau eraill.

7.18 Ymddengys nad yw rhai o'r awdurdodau wedi paratoi ar gyfer y gwaith o fonitro a chynnal adolygiadau parhaus o'r ymrwymadau a nodwyd yn eu strategaethau cyhoeddedig. O'r herwydd, mae perygl y gallai'r momentwm a grëwyd wrth baratoi'r strategaethau gael ei golli. Mae dryswch eang o ran beth a sut i fonitro a sut y mae canlyniadau eu hawdurdod yn gysylltiedig â'r darlun cenedlaethol. Mae newidiadau i bolisi (e.e. cyflwyno Cynlluniau Integredig Sengl, newidiadau i Gymunedau'n Gyntaf, penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnwys tlodi plant mewn cynllun gweithredu ehangach sy'n canolbwyntio fwy ar dlodi sy'n pontio'r cenedlaethau). Roedd canfyddiad hefyd o golli ffocws ar lefel awdurdodau lleol, gyda thlodi plant yn dioddef am nad yw'n parhau'n flaenoriaeth wleidyddol. Roedd y cyfweleion yn awyddus i sicrhau na fyddai 'colli momentwm' a 'gwanhau' y flaenoriaeth yn digwydd ymysg cyrff cyhoeddus.

7.19 I gloi, un o'r ffactorau allweddol sydd wedi sicrhau llwyddiant Datrys Tlodi Plant oedd brwdfrydedd y cydgysylltydd ac arbenigedd a chysylltiadau'r sefydliad arweiniol. Byddai'n fuddiol sicrhau nad yw'r rhwydweithiau a'r cysylltiadau hyn, yn ogystal â'r deunyddiau a'r gwersi a ddysgwyd, yn cael eu colli wrth symud ymlaen i gam nesaf y gweithgareddau i gefnogi'r gostyngiad mewn tlodi plant.

Atodiad 1: Ymgynghoriadau

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Ian	Fido
Cyngor Celfyddydau Cymru	Sian	Thomas
Cyngor Celfyddydau Cymru	Diane	Hebb
CYPP Blaenau Gwent	Phil	Diamond
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Clare	Parsons
Cyngor Sir Ceredigion / Consortiwm Teuluoedd yn Gyntaf De-orllewin Cymru	Geraldine	Murphy (GLI)
Plant yng Nghymru	Sean	O'Neill (GLI)
Datrys Tlodi Plant Cymru	Ross	Chamberlain (GLI)
ContinYou Cymru	Pam	Boyd
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Elinor	Gwynn
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Jane	Johns
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Anna	Bird
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	Bethan	Gill
National Energy Action Cymru	Helen	Roach (GLI)
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Pedr	ap Llwyd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Ceri	Black
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Judith	Ingram
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Casnewydd	Ann	Culverwell
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Tom	Moses
Gwasanaeth Addysg Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro	Bev	Stephens
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Eryl	Powell (GLI)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Carys	Dafydd
Chwaraeon Cymru	Simon	Jones
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Desmond	Mason
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Megan	Evans
Llywodraeth Cymru	Beverly	Morgan
Llywodraeth Cymru	Sue	Ashcroft (GLI)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Emily	Warren (GLI) (drwy ohebiaeth e-bost)

GLI: Aelod o'r grŵp llywio

Atodiad 2: Dyfarnu grantiau

Ffigur A1: Datrys Tlodi Plant, dadansoddiad o'r costau

Eitem	Bl. 1	Cyfraniad LICC	Bl. 2	Cyfraniad LICC	Bl. 3	Cyfraniad LICC
Cydgysylltydd Prosiect Llawn-amser	39,200	39,200	40,376	40,376	41,587	41,587
Adnodd datblygu hyfforddiant	10,000	10,000	10,300	10,300	10,609	10,609
Datblygiad/hyfforddiant staff prosiect	500	500	515	515	530	530
Teithio	2,000	2,000	2,060	2,060	2,122	2,122
Offer swyddfa/nwyddau traul	200	200	206	206	212	212
Rhent a chostau swyddfa (3,500 fesul swydd lawn-amser)	3,500		3,605		3,713	
Costau dylunio gwefan, gan gynnwys gwaith cyfoethogi a chyfieithu deunydd newydd	2,400	2,400	2,472	2,472	2,546	2,546
Costau cyfieithu eraill	2,500	2,500	2,575	2,575	2,652	2,652
Costau Cyhoeddusrwydd/ Cyfarfodydd/Digwyddiadau	500	500	515	515	530	530
Cefnogaeth SCF (Rheoli, Polisi, Cyfryngau mewn nwyddau)	9,000		9,270		9,548	
Recriwtio	1,000	1,000	0	0	0	0
Costau gwerthuso Blwyddyn 3	0	0	0	0	10,000	
<i>Isgyfanswm</i>	<i>70,800</i>	<i>58,300</i>	<i>71,894</i>	<i>59,019</i>	<i>84,051</i>	<i>60,790</i>
Cefnogaeth rheoli/costau adferiad anuniongyrchol @ 6% o'r grant		2,915		2,951		3,039
Costau cynnal blynyddol	70,800	61,215	71,894	61,970	84,051	63,829
Costau CLILC (Costau staff mewn nwyddau)	2,400					
Costau PSU (Mewn nwyddau: gweler Atodiad 2)	8,921					
Cyfanswm costau'r flwyddyn gyntaf	82,121		71,894		84,051	

	Bl. 1	Bl. 2	Bl. 3
Cyfraniad blynyddol gan Lywodraeth Cymru	61,215	61,970	63,829

Cyfanswm costau cynnal y Prosiect	226,745
--	----------------

Cyfanswm cyffredinol costau'r prosiect	238,066
Cyfanswm y grant a geisiwyd gan y noddwr dros 3 blynedd	187,014

Atodiad 3: Nodau Eang

Ym *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010*, mae Gweinidogion Cymru wedi nodi tri amcan strategol ar gyfer Strategaeth Tlodi Plant gyntaf Cymru, sy'n trawstorri i holl nodau eang. Dyma'r amcanion:

1. Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd di-waith.
2. Gwella lefel sgiliau rhieni a phobl ifanc mewn teuluoedd incwm isel er mwyn iddynt allu sicrhau cyflogaeth.
3. Lleihau'r anghydraddoldebau yn y canlyniadau economaidd, addysg ac iechyd ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Mae 13 nod eang pellach yn cynnig fframwaith ar gyfer y Strategaeth Tlodi Plant. Gofynnwyd i'r Awdurdodau Cymreig ymrwymo i ddarparu yn erbyn un neu fwy o'r 13 nod eang, ac mae'r tabl isod yn nodi pa rai o'r nodau eang yr aeth yr awdurdodau i'r afael â hwy.

Ffigur A2: 13 Nod Eang Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

13 Nod Eang	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ⁷	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Bannau Brycheiniog	Arfordir Penfro	Eryri	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Amgueddfa Genedlaethol Cymru ⁸	Cyngor Celfyddydau Cymru	Llyfrgell Genedlaethol Cymru ⁹	Cyngor Chwaraeon Cymru
(a) cynyddu incwm i aelwydydd sy'n cynnwys plentyn neu blant gyda'r bwriad o sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, nad oes unrhyw aelwyd yn y grŵp incwm perthnasol;													
(b) sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, nad yw plant sy'n byw ar aelwydydd yn y grŵp incwm perthnasol wedi'u hamddifadu'n sylweddol;													
(c) hybu a hwyluso cyflogaeth am dâl i rieni plant;							✓						✓
(d) darparu i rieni plant y sgiliau sy'n angenrheidiol ar							✓	✓					✓

⁷ Nodwyd ei bod wedi'i chwblhau, ond nid oedd y Strategaeth ar gael i'r tîm gwerthuso ei gweld.

⁸ Nid yw Strategaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru (<http://www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/3603/>) yn cyfeirio'n uniongyrchol at y nodau eang ond yn hytrach, mae'n gwneud cysylltiadau â thrydydd amcan Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, sef lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau ar gyfer y tlotaf.

⁹ Nid yw Strategaeth y Llyfrgell Genedlaethol (<http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/Child%20Poverty%20FINAL.pdf>) yn cyfeirio'n uniongyrchol at y nodau eang, fodd bynnag, mae'r testun yn awgrymu y byddai'r camau gweithredu arfaethedig a'r camau gweithredu a fwriedir yn cysylltu'n bennag â nod (j) ac i raddau llai, nodau d, e, k ac l.

gyfer cyflogaeth am dâl;														
(e) lleihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant;							✓	✓						✓
(f) cefnogi rhianta plant;		✓	✓				✓							
(g) lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd rhwng plant a rhwng rhieni plant (i'r graddau y mae'n angenrheidiol i sicrhau llesiant eu plant);							✓ allwed dol		✓ allwed dol					✓
(h) sicrhau bod pob plentyn yn tyfu mewn tai gweddus;				✓	✓	✓								
(i) sicrhau bod pob plentyn yn tyfu mewn cymunedau diogel a chydlynus;		✓	✓				✓ allwed dol							✓
(j) lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant (i'r graddau y mae'n angenrheidiol i sicrhau llesiant eu plant);				✓	✓	✓	✓ allwed dol				✓			✓ (prif ffocws)
(k) cynorthwyo personau ifanc i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant;							✓ allwed dol	✓ allwed dol						✓
(l) cynorthwyo personau ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth;							✓ allwed dol							✓
m) cynorthwyo personau ifanc i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.		✓	✓				✓							✓